

RHAGLEN

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. MYNEGAI AMDDIFADIAD LLUOSOG CYMRU

Ymhellach i Gofnod Rhif 98 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 18fed Rhagfyr 2019, croesawu Ms. Judith Greenhalgh (Prif Weithredwr) a Ms Nikki Jones (Swyddog Datblygu Cymunedol), Cyngor Sir Ddinbych i'r cyfarfod i roddi asesiad manwl o'r data WIMD 2019 (copi o'r dadansoddiad yn amgaeedig).

3. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – (ATODLEN A) IONAWR 2020

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

4. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

5. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU – EBRILL – RHAGFYR 2019

Ymhellach i Gofnod Rhif 73 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 16eg Hydref 2019, derbyn adroddiad cynnydd ar fuddsoddiadau'r Cyngor (copi'n amgaeedig).

6. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2020/21

Derbyn a phenderfynu ar gyd-adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi'n amgaeedig).

7. ADRODDIAD SICRHAD CADEIRYDD YR IS-BWYLLGOR ASESU RISG

Ymhellach i Gofnod Rhif 30 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Tachwedd 2019, derbyn adroddiad y Cadeirydd (copi'n amgaeedig) yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor.

8. CYFRIFON TERFYNOL HYD AT 31 RHAGFYR 2019 AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2019/20

Derbyn a chydabod cyd-adroddiad cynnydd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi'n amgaeedig) yn dangos perfformiad o gymharu gyda'r gyllideb.

9 DATGANIAD BLYNYDDOL 2017/18 – CWBLHAU ARCHWILIAD

Ymhellach i Gofnod Rhif 86 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20fed Tachwedd 2019, derbyn gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru (copi'n amgaeëdig).

10. CAIS AM LYTHYR O GEFNOGAETH AR GYFER ARIANNU SYSTEM TELEDU CYLCH CYFYNG

Awdurdodi bod llythyr o gefnogaeth ar gyfer cyllid allanol yn cael ei anfon at Bartneriaeth Geledu Cylch Cyfyng Sir Ddinbych.

11. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH: MAES PARCIO TALU AC ARDDANGOS ARFAETHEDIG NEUADD Y DREF

Derbyn a phenderfynu ar ymateb y Cyngor Tref i ymgynghoriad ar y Maes Parcio Talu ac Arddangs arfaethedig yn Neuadd y Dref (hen safle Swyddfa Bost y Goron) (copi'n amgaeëdig).

12. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH: CYNLLUN DATBLYGU LLEOL – SAFLEOEDD POSIBL YCHWANEGOL

Ymhellach i Gofnod Rhif 43 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 17eg Gorffennaf 2019, derbyn ymgynghoriad ar safleoedd posibl ychwanegol i'w cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd (copi'n amgaeëdig).

13. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH: ADOLYGIAD O'R SIARTER RHWNG CYNGOR SIR DDINBYCH A CHYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNED

Penderfynu ar ymateb y Cyngor Tref i'r ymgynghoriad uchod (copi'n amgaeëdig).

14. EITEMAU ER GWYBODAETH

- (i) Derbyn adroddiad llafar gan Glerc y Dref mewn perthynas â threfniadau sy'n cael eu gwneud gan Mr. Richard Kendrick mewn perthynas â dathliadau 75 pen-blwydd Diwrnod VE a Diwrnod VJ.
- (ii) Derbyn gwybodaeth mewn perthynas â sefydlu Grŵp i gynnal a chadw Mynwent yr Eglwys yng Nghymru yn Dyserth Road a gwahodd Cynghorwyr y Dref i gymryd rhan (copi'n amgaeëdig).

15. EITEMAU GAN AELODAU

- (i) Y Cynghorydd J. Ball – Gofyn am gefnogaeth i roddi gwahoddiad i gwmni bysus lleol i annerch y Cyngor mewn perthynas â theithiau disgownt posibl i deuluoedd lleol. [D.S. Trafodwyd yr eitem hon yn wreiddiol gan y Pwyllgor CSG ym mis Hydref 2019 fel Gwasanaeth posibl a Gomisiynir].
- (ii) Y Cynghorydd T. Thomas – Ceisio cefnogaeth i'r Cyngor benodi cynrychiolwyr i Grŵp Busnes y Rhyl a BID y Rhyl.

16. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

17. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

18. PROSIECTAU SEILWAITH GWYRDD CANOL Y DREF

Ymhellach i Gofnod Rhif 121 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Ionawr 2020 i dderbyn manylion y prosiectau a gyflwynwyd i Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer eu hariannu (copi'n amgaeëdig).

19. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.